## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn YSTAFELL GYNADLEDDA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mercher, 26 Mehefin 2019 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Ellie Chard, Tony Flynn, Emrys Wynne a Cheryl Williams, Emrys Wynne, RevParchedig Brian Huw Jones, Ali Ballantyne and Dominic Oakes (cadeirydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth - Ysgol Uwchradd Dinbych (PE), Swyddog Addysg Esgobaethol (JD), Uwch Swyddog Gwella Ysgolion (JM), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a'r Pwyllgor Gweinyddwr (HB)

### ARSYLWI

Cynghorydd Mabon ap Gwynfor

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Tony Thomas a'r Parchedig Martin Evans-Jones.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd Cynghorwyr eu bod yn lywodraethwyr ysgol.

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol gydag Eitem 6 ar y Rhaglen. Eglurodd ei fod yn adnabod aelodau o adran Addysg Grefyddol Ysgol Dinas Brân yn dda iawn.

### 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Roedd gan Dominic Oakes bryderon o ran sut y dosbarthwyd ei becyn iddo. Eglurodd o ystyried y pryderon ynglŷn â'r amgylchedd, roedd yn teimlo nad oedd angen y pecyn plastig a byddai amlen bapur yn ddigon y tro nesaf. Yn dilyn ymlaen o’i bryderon, nododd hefyd faint o bapur oedd yn y pecynnau, gan godi’r cwestiwn a oedd copïau papur yn ofynnol.

Gofynnir i’r holl aelodau fynegi eu dull a ffefrir o dderbyn y Pecyn, naill ai drwy'r post neu dros e-bost.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2019 (wedi’u dosbarthu yn flaenorol).

Materion yn codi:-

Tudalen 9 – Mynychodd y Cynghorydd Ellie Chard CCYSAGC ar 26 Mawrth ac roedd wedi rhannu ei hadroddiad gyda'r aelodau.

Tudalen 12 – Byddai trefniadau Asesu'r Cwricwlwm newydd yn cael eu dosbarthu. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y cwricwlwm newydd oedd mis Gorffennaf.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2019 fel cofnod cywir.*

**5 ADOLYGIAD ESTYN O ADDYSG GREFYDDOL**

Cyflwynodd Pennaeth Ysgol Uwchradd Dinbych ac Arolygydd Cyfoedion Estyn (HTDHS) Adolygiad Estyn o Addysg Grefyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Gwahoddwyd yr HTDHS i gymryd rhan mewn astudiaeth thematig gyda chylch gwaith i edrych ar ddarpariaeth ac ansawdd Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 3.

Yn ystod yr ymweliadau, roedd gan yr arolygwyr gyfle i gyfarfod gyda'r Penaethiaid i ofyn cyfres o gwestiynau, ac yna roedd cyfle i gyfarfod â'r myfyrwyr ac adolygu enghreifftiau o'u gwaith.

Safonau – daeth y panel o arolygwyr i'r casgliad bod gan nifer o'r ysgolion safon dda o Addysg Grefyddol. O ran pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, roedd ailadrodd yn y gwaith, cafwyd y wybodaeth hon o ddatganiadau'r myfyrwyr.
Nododd y myfyrwyr bod Addysg Grefyddol yn gymorth iddynt ddeall y gwrthdaro yn y Byd, ac yn gymorth i ddeall pam fod gan wahanol bobl safbwyntiau gwahanol. Eglurodd HTDHS ei bod yn amlwg yng Nghyfnod Allweddol 3 bod athrawon dosbarth yn galluogi trafodaeth gyda phynciau megis perthnasau ac ati.

Roedd yn amlwg bod Addysg Grefyddol yn dda iawn am ddatblygu sgiliau myfyrwyr, yn enwedig llythrennedd, meddwl a rhesymu. Nid oedd gan Addysg Grefyddol mewn ysgolion bwynt yn diffinio beth y gellir ei astudio.

Darpariaeth – Roedd gan nifer o'r ysgolion staff cymwys i gyflwyno'r pwnc, yng nghyfnod Allweddol 2 a 3. Ond roedd diffyg gwaith pontio yn golygu bod testunau'n cael eu hailadrodd.

Nododd yr adroddiad bod yr adran mewn ysgolion uwchradd yn aml yn cael eu harwain gan arbenigwr pwnc a oedd â chymhwyster lefel gradd. Roedd cefnogaeth darpariaeth yn amrywio ar draws yr ysgolion, roedd gan rai ysgolion ddull systematig o ddysgu gyda'r holl adnoddau ar gael ac roedd gan eraill gyfarfodydd wythnosol gydag arbenigwr i sicrhau bod y cwricwlwm yn gywir ac i ofyn am unrhyw ddarpariaethau oedd yn ofynnol.

Cysylltiadau – roedd gan bron yr holl ysgolion cynradd gysylltiadau da gyda sefydliadau ond dim ond lleiafswm o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 oedd yn ymweld â man crefyddol nad oedd yn Gristnogol. Codwyd y cwestiwn pa mor aml yr oedd cynrychiolwyr crefyddol yn ymweld ag ysgolion.

Holodd Dominic Oakes ai llai o gynrychiolwyr crefyddol oedd yn cysylltu â'r ysgolion i ymweld neu ddiffyg gwahoddiadau gan yr ysgolion. Cadarnhaodd HTDHS mai cyfuniad o'r ddau ydoedd. Roedd lleoliad yn elfen bwysig, eglurodd bod ysgol uwchradd wedi ymweld â Mosg ym Manceinion unwaith, ond nad ydynt yn gwneud hynny bellach oherwydd rhesymau ymarferol. Cynigodd y cadeirydd syniad o greu rhestr o leoliadau addoli cymeradwy y gallai ysgolion ymweld â nhw, teimlai y byddai hyn yn annog yr ysgolion i drefnu'r ymweliadau.

Ansawdd Adborth Athrawon – eglurwyd i'r aelodau bod y wybodaeth yn amrywio ar draws Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Ond roedd yr adborth yn drylwyr.

Aelodaeth – roedd cwricwlwm nifer o'r ysgolion cynradd a bron yr holl ysgolion uwchradd yn cael ei fonitro. Roedd gan nifer o'r ysgolion uwchradd broses hunanwerthuso o fewn Addysg Grefyddol, byddai gwybodaeth yn cael ei adrodd i'r Pennaeth a fyddai yna'n adrodd i'r Cyrff Llywodraethu.

Dysgu Proffesiynol - Roedd gan nifer o ysgolion fynediad cyfyngedig at hyfforddiant ar gyfer athrawon. Roedd nifer o'r ysgolion yn ymwybodol o CYSAG ond yn ansicr ynglŷn â'i rôl.
Roedd llai o gyfleoedd i athrawon Cyfnod Allweddol 3 i gyfarfod â'u cyd arbenigwyr pwnc, ac roedd llai o achosion lle roedd athrawon o Gyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn cyfathrebu i sicrhau pontio da.

Dywedodd Ali Ballantyne gan fod Addysg Grefyddol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 3, pam nad oedd myfyrwyr yn derbyn lefel, roedd yn teimlo bod y pwnc yn dod yn llai pwysig o gymharu â phynciau gorfodol eraill.

Teimla'r Cynghorydd Ellie Chard nad oedd graddau yn angenrheidiol yn Addysg Grefyddol Mae gan fyfyrwyr safbwyntiau gwahanol, felly roedd yn teimlo na fyddai'n deg eu graddio ar eu safbwyntiau.

Eglurodd HTDHS er mwyn gwirio cynnydd myfyrwyr, rhoddir lefel i bob unigolyn ar gyfer pob pwnc dyniaethol. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, roedd gan yr ysgol ofyniad cyfreithiol i adrodd i'r rhieni. Yn ôl y gyfraith, nid oedd yn rhaid i'r ysgol ei adrodd cyn yr adroddiad terfynol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

Teimla Ali Ballantyne y dylid adrodd y lefelau.

Ychwanegodd Dominic Oakes y byddai'r defnydd o lefelau yn bwynt dadleuol iawn, ond teimla bod y pwnc yn anrhydeddus o beidio â chael lefelau. Ychwanegodd hefyd nad oedd yn teimlo y byddai cyflwyno argymhelliad o fewn cylch gwaith y grŵp.

Eglurodd Uwch Swyddog Gwella Ysgolion (SSIO) i'r aelodau y byddai'r Awdurdod Lleol yn ymateb i'r Cwricwlwm newydd. Fel awdurdod gallant awgrymu bod Addysg Grefyddol yn derbyn pwysau cyfartal o fewn y pynciau dyniaethau eraill.

Teimla Swyddog Addysg yr Esgobaeth (DEO) bod y sgiliau sy'n cael eu datblygu drwy Addysg Grefyddol yn hanfodol ar gyfer bywyd. Felly teimla wrth symud ymlaen tuag at y cwricwlwm newydd, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r themâu, astudiaethau, enghreifftiau a'r disgwyliadau o'r themâu.

Teimla'r cadeirydd er bod y pwnc yn bwysig, dylid ei ystyried mewn cyfarfod arall pan fo sefyllfa'r cwricwlwm newydd wedi symud ymlaen ymhellach.
Nododd hefyd bod ymgynghorydd arbenigol Addysg Grefyddol wedi mynychu a chefnogi'r CYSAG, holodd pam nad oedd arbenigwr yn mynychu'r cyfarfodydd mwyach. Cadarnhaodd y SSIO bod arbenigwr oedd yn gweithio ar gyfer GwE a oedd yn mynychu cyfarfodydd, fodd bynnag roedd Addysg Grefyddol yn rhan fechan iawn o'r swydd a phan fo amgylchiadau'n newid roedd y ddarpariaeth wedi mynd. Ond fe gadarnhaodd yr SSIO bod arbenigwr yn cael ei ganfod i gefnogi CYSAG yn y tymor ysgol newydd.

Eglurodd yr SSIO bod Ysgolion wedi derbyn copïau o adroddiadau Estyn. Mae'n rhaid i'r ysgolion ddatblygu'r argymhellion yn eu hysgolion, gan nad oedd gan yr awdurdod y capasiti i fonitro'r argymhelliad ar gyfer pob ysgol unigol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gweithdrefnau presennol, eglurodd yr SSIO na ellir gwella'r gweithdrefnau presennol a gan nad oedd pryderon mawr am unrhyw ysgol yn yr awdurdod, ni fyddai angen newid y gweithdrefnau.

Holodd y Cynghorydd Emrys Wynne beth oedd yr agwedd tuag at atal o fewn ysgolion a sut yr eir i'r afael â diogelu. Eglurodd HTDHS bod posteri ym mhob dosbarth yn Ysgol Uwchradd Dinbych gyda lluniau ac enwau'r swyddogion diogelu. Roedd yr aelodau o staff yn ymwybodol pe bai mater diogelu, y dylid ei adrodd i'r swyddogion diogelu neu'r pennaeth. Yna byddai'r ysgol yn ffonio rhif Porth Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol i roi gwybod am y materion. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant blynyddol ac roedd atal yn rhan o'r hyfforddiant.

Ar ran yr aelodau diolchodd y cadeirydd i Bennaeth Ysgol Uwchradd Dinbych ac Arolygydd Cyfoedion ar gyfer Estyn am ei adroddiad ac awgrymu y dylid ychwanegu diogelu mewn ysgolion at y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

***PENDERFYNWYD: -*** Bod y pwyllgor yn nodi'r argymhellion yn Adroddiad Estyn.

**6 ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOL DINAS BRÂN**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwella Ysgolion (SSIO) adroddiad ar Addysg Grefyddol yn Ysgol Dinas Brân gan y derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Bennaeth a oedd am fynychu'r cyfarfod.

Dechreuodd yr SSIO gyda diweddariad byr ar hanes Addysg Grefyddol yn Ysgol Dinas Brân. Roedd gan Addysg Grefyddol hanes da yn yr ysgol, gyda'r myfyrwyr

ym mhob blwyddyn yn derbyn un wers yr wythnos.  Ar ôl hyn, byddai myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 yn dewis pa lefel o Addysg Grefyddol y maent eisiau ei astudio.

Aeth ymlaen i egluro ar hyn o bryd, roedd gan Dinas Brân 59 o fyfyrwyr ar y cwrs TGAU llawn a 145 ar y cwrs TGAU byr, gyda 73 o fyfyrwyr ychwanegol yn astudio'r Arholiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.  Canmolodd yr Adran Addysg Grefyddol gan nodi ei bod yn anffodus nad oedd myfyrwyr eisiau astudio'r pwnc ar gyfer lefel A.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r SSIO am eglurder ynglŷn â'r ffigyrau, holodd a oedd diffyg diddordeb gan unrhyw fyfyriwr ar gyfer y cwrs lefel A neu ai dim ond llond llaw oedd wedi mynegi diddordeb ond na allai'r ysgol gyflawni eu cais.
Mewn ymateb cadarnhaodd y SSIO y byddai’r cwrs yn derbyn diddordeb gan un neu ddau o fyfyrwyr bob blwyddyn.

Eglurodd y SSIO na fyddent yn gallu derbyn unrhyw ffigyrau o ran nifer y myfyrwyr oedd wedi astudio’r cwrs ac yn parhau i astudio’r cwrs tan tymor yr Hydref, ond eglurodd y byddai’n ceisio ffigyrau dangosol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

O safbwynt yr Awdurdod Lleol nododd y SSIO nad oedd unrhyw faterion o ran Addysg Grefyddol yn Ysgol Dinas Brân.

***PENDERFYNWYD:  -*** Bod y pwyllgor yn nodi darpariaeth addysg grefyddol yn Ysgol Dinas Brân.

## 7 YMGYNGHORIAD AR GWRICWLWM CYMRU

Nododd Dominic Oakes bod y grŵp wedi trafod Ymgynghoriad ar Gwricwlwm Cymru yn flaenorol ac fe gynigodd nad oedd y grŵp yn adolygu’r ddogfen gyfan, ond yn derbyn diweddariad wedi’i grynhoi gan SSIO.

Eglurodd y SSIO nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio’n uniongyrchol at Addysg Grefyddol fel pwnc unigol ond yn cyfeirio at y Dyniaethau, y mae Addysg Grefyddol yn un ohonynt.  Eglurodd bod yr awdurdod eisiau edrych ar y cwricwlwm sy'n dehongli hawliau dynol, gwerthoedd a safbwyntiau crefyddol i sicrhau datblygiad cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc.

Roedd y camau cynnydd yn yr adroddiad yn nodi sut roedd y deilliannau cyflawniad yn cael eu datblygu.  Roedd y camau cynnydd yn berthnasol i blant rhwng 4 ac 16 oed.

***PENDERFYNWYD:  -*** Bod y pwyllgor wedi ystyried ac yn nodi sut byddai’r cwricwlwm Addysg Grefyddol newydd yn cael ei ddatblygu yn Sir Ddinbych.

## 8 SIARTER CONWY

Eitem wedi’i thynnu'n ôl.

## 9 Y BERTHYNAS RHWNG CREFYDD A RHYFEL A HEDDWCH MEWN GWERSI ADDYSG GREFYDDOL

Eglurodd y Cadeirydd ei fod eisiau i'r pwyllgor ystyried a oedd materion a godwyd o fewn siarter heddwch arfaethedig y Crynwyr y dylid eu hargymell i ysgolion i'w defnyddio mewn gwersi Addysg Grefyddol. Yn benodol, nododd a ddylai'r lluoedd arfog gael mynediad at blant mewn ysgolion.

Eglurodd y DEO bod yn rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar les pobl ifanc o deuluoedd y lluoedd arfog. Roedd yn teimlo pe trafodir y mater, dylid gwneud hynny gyda gofal.

Diolchodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor i'r cadeirydd am godi mater y lluoedd arfog, gan nodi nad yw'r testun yn cael ei drafod ddigon fel awdurdod.
Roedd yn teimlo wedi'i ysbrydoli gan hyn a byddai'n codi'r mater mewn pwyllgorau eraill.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bryderon bod CYSAG yn cymryd rôl i hyrwyddo'r siarter heddwch gan nad oedd y rôl o fewn cylch gorchwyl CYSAG ac roedd geiriad rhai rhannau o'r siarter yn ddadleuol.

Gofynnodd y cadeirydd i'r aelodau am eu safbwyntiau ar yr eitem.

Nododd y Cynghorydd Tony Flynn fod ganddo gysylltiad personol, roedd wedi ystyried sylwadau'r aelodau ac nid oedd yn teimlo bod y testun yn briodol.

Nid oedd y Cynghorydd Cheryl Williams yn cytuno â hyn chwaith. Datganodd gysylltiad gan fod aelod o'i theulu yn aelod o'r RAF.

Eglurodd y Cynghorydd Ellie Chard pe bai'n rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â hyrwyddo'r siarter heddiw, byddai'n pleidleisio' n ei erbyn.

Roedd y Parchedig Brian H Jones yn teimlo pe bai'r eitem yn rhan o'r drafodaeth a'r sgwrs, byddai angen cyflwyno'r ddwy ochr i'r ddadl.

Nododd y cadeirydd y datganiadau a wnaed gan yr aelodau. Cytunodd fod ganddo bryderon ynglŷn ag iaith y siarter heddwch a'i fod yn deall bod angen mwy o waith ar gyfer y drafodaeth.

Nododd y Cynghorydd Emrys Wynne, wrth adolygu'r ddogfen, y byddai'n anodd i CYSAG argymell y siarter heddwch. Ond nododd bod posibilrwydd ar gyfer sgyrsiau pellach o fewn y Cyngor.

Nododd y cadeirydd safbwyntiau'r aelod ar y testun.

***PENDERFYNWYD: -*** Bod yr aelodau'n nodi'r adroddiad llafar.

**10 CYSAG**

Roedd y Cynghorydd Ellie Chard wedi mynychu cyfarfod CCYSAGC yng Nghaerdydd, nododd ei bod wedi llwyr fwynhau'r diwrnod.

Diolchodd y cadeirydd i'r Cynghorydd Chard am fynychu.

Awgrymodd Ali Ballantyne y byddai'n mynychu cyfarfod nesaf CCYSAGC .

**11 RHAGLEN AR GYFER 2020**

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r dyddiadau ar gyfer holl gyfarfodydd 2020 yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo ar 2 Gorffennaf. Ar ôl eu cymeradwyo byddai'n eu dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.57am**